

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

11eg Gorffennaf 2021

Annwyl Gyfaill,

CYNHELIR CYFARFOD O CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher yr 21ain o Orffennaf 2021 am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Yn unol a'r cyfarfodydd diwethaf, bydd rhaid dilyn canllawiau clir y Neuadd yn ystod y noson drwy fynd i mewn o'r Brif Fynedfa, defnyddio y deunydd diheintio, a cherdded llwybr un ffordd ayyb. Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,
Huw T Jones
CLERC

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd a derbyn ymddiheuriadau.
2. Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Blyneddol a gynhaliwyd 26ain o Fai 2021, gweler gopi yn atodol. Hefyd cadarnhau cofnodion cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar y 14eg o Fehfin 2021 i drafod torri gwair ym mynwent Mallwyd – gweler gopi yn atodol.
3. **Materion yn codi o gyfarfod 26.05.21**
 - a) Materion Priffyrdd.
 - b) Mynwent Dinas Mawddwy
 - c) Cyfrifon 20/21
 - d) Cynghorydd Ward Aberangell.
 - e) Maes Parcio ar ben Bwlch yr Oerddrws – ymateb y Parc Cenedlaethol
 - f) Giat ar Bont Dolybont
 - g) Sefydlu Is-bwyllgor Cyllid (adroddiad o gyfarfod o gynhaliwyd ymlaenllaw)
4. **Materion yn codi o gyfarfod arbennig 14.06.21**
 - a) Adrodd y sefyllfa ddiweddaraf gyda thorri gwair mynwent Mallwyd
 - b) E-bost Cyng Hedd Pugh am y 'Model Protocol Datrysiadau Lleol' – i'w fabwysiadu.
5. **Materion Cynllunio**

Y canlynol wedi eu cylchredeg eisoes;

NP5/74/333J – Gosod cwt caffi prydau parod yn lle y caffi presennol yn Canolfan Arddio Camlan

NP5/74/94E – Adeiladu estyniad ochr unllawr I annedd heb ei gwblhau – Maes Tirion, Dinas Mawddwy.
6. **Materion Cyllid**

Aelodaeth SLCC I'r Clerc.

Diweddarau sefyllfa ariannol y Cyngor I'w gymharu a'r gyllideb.

7. **Gohebiaeth** – yn cynnwys;

Pryderon Cyngorau Cymuned eraill ynglyn a diffyg ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd.

8. Unrhyw fater arall